**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**2 RHAGFYR 2022**

**BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN**

**Aelodau'r Cabinet:**

Cynghorwyr:: W.F.Griffiths, S.Jones (Cadeirydd) a/ac D.M.Peters

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Brennan, D.Griffiths, M.Roberts, N.Jones, C.John, S.Cook, N.Bulcraig, N.Chapple, H.Hasan, Ms.J.Smith a/ac C.Morris

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2022 a 28 Hydref 2022 fel cofnodion cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodi'r Flaenraglen Waith.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

7. **CYNLLUN YSGOL GODRE'R GRAIG**

Nododd yr aelodau yr Asesiad Effaith Integredig diwygiedig.

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig:

Y bydd Opsiwn 3 yn cael ei rhoi ar waith i reoli'r risg a gwella'r amgylchedd lleol, gyda'r gost yn cael ei hariannu gan Gronfa Wrth Gefn Gorfforaethol y cyngor, neu drwy unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael yn y dyfodol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I reoli'r risgiau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â llif malurion o domenni gwastraff ar y safle, gan mai dyma'r unig ateb fforddiadwy sydd ar gael i'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

8. **RHAGLEN GWAITH YCHWANEGOL**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Y bydd y rhaglen o wariant, fel y nodir yn Atodiad A o'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei chymeradwyo i'w chwblhau dros y 18 mis nesaf
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r aelod perthnasol o'r cabinet, i ymgymryd â chaffael a/neu lunio rhaglenni sy'n seiliedig ar anghenion cysylltiedig sy'n cael eu blaenoriaethu a'u rhoi ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu offer ar gyfer darparu gwasanaethau a chynnal asedau y mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt, er mwyn helpu i fynd i'r afael â phryderon y gymuned mewn perthynas â'r amgylchfyd trefol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

9. **SIARTER TEITHIO'N IACH**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyo bod y cyngor yn dod yn un o lofnodwyr Siarter Teithio Iach Bae Abertawe.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Mae'r siarter yn ceisio lleihau'r effaith ar yr amgylchedd lleol drwy leihau'r defnydd a'r ddibyniaeth ar beiriannau tanio mewnol; i geisio gwneud staff yn fwy heini (yn unol â Deddf Teithio Llesol Cynulliad Cymru) i leihau anweithgarwch, gordewdra a rhoi hwb i'w lles.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

10. **PARCIO AR GYFER NADOLIG 2022**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig:

Bydd hawl i barcio am ddim ym meysydd parcio talu ac arddangos Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe rhwng dydd Sadwrn 10 Rhagfyr 2022 a dydd Sul 1 Ionawr 2023 (ac eithrio meysydd parcio'r Gnoll, Parc Gwledig Coedwig Afan a Glan Môr Aberafan).

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn cefnogi economi canol y dref, cydnabyddir y byddai darparu parcio am ddim i geir dros y Nadolig yn cefnogi ei hadferiad ymhellach.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

## 11. DILEU RHAN O LWYBR TROED RHIF 21, CILYBEBYLL

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig, cyflwyno Gorchymyn Diddymu Llwybr Cyhoeddus yn unol ag adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ar gyfer y llwybr a ddangosir fel A-B ar y cynllun sy'n atodedig i'r adroddiad a ddosbarthwyd, ac os na wneir unrhyw wrthwynebiadau, cadarnhau'r gorchymyn fel y gwnaed.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

- Nid oes angen llwybr o'r hyd hwn at ddefnydd y cyhoedd o ystyried bod llwybr addas arall drwy'r llwybr A-C sy'n ymuno â'r droedffordd ochr yn ochr â Heol y Graig sy'n cysylltu â phwynt C.
- Nid yw hyd gwreiddiol llwybr A-B ar gael mwyach ac mewn unrhyw achos mae graddiant y clawdd o'r tai y tu cefn i'r ffordd bengaead hyd at bwynt B yn fwy serth na thrwy'r droedffordd hyd at bwynt C.
- Nid oes llwybr addas arall ar gyfer hyd A-B.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

## 12. GORCHMYNION DILEU AR GYFER RHAN O LWYBR TROED RHIF 38 CILYBEBYLL

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig, cyflwyno Gorchymyn Diddymu yn unol ag Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980 mewn perthynas â'r llwybr a ddangosir fel C-C1-D ar y cynllun sy'n atodedig i'r adroddiad a ddosbarthwyd, ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau i'r gorchymyn, yna cadarnhau'r gorchymyn fel y gwnaed.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

- Mae angen datrys y mater o'r hyd yma o lwybr sy'n croesi dros ddwy ardd.
- O ganlyniad i'r datblygiad tai, collwyd y llwybr gwreiddiol trwy'r cae, ond gellir cael mynediad ar draws y safle o Heol Castell-nedd i lwybr cyhoeddus rhif 39 o hyd ar hyd ffyrdd yr ystâd yn bennaf.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

13. **DARGYFEIRIO LLWYBR TROED RHIF 14 - CWMAFAN**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig, cyflwyno Gorchymyn Dargyfeirio llwybr cyhoeddus yn unol ag Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 mewn perthynas â'r llwybr a ddangosir fel A-B-C-D i A-E-D ar gynllun rhif 1 yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, yna cadarnhau'r gorchymyn fel y gwnaed.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn bodloni'r rhesymau dros wneud y gorchymyn dan brofion hwylustod gan y bydd yn gwella preifatrwydd i'r preswylwyr sy'n byw yn agos at y llwybr ac ni fydd y dargyfeiriad yn cael unrhyw effaith sylweddol ar fwynhad o'r llwybr yn ei gyfanrwydd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

14. **GRANT EIDDO MASNACHOL - 5 THE ROPEWALK, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig a disgrifiad o'r argymhelliad, y bydd y grant yn cael ei gymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Rhoi darpariaethau'r cynllun Grant Eiddo Masnachol ar waith yn unol â'r meini prawf a thelerau gweinyddu'r grant, er mwyn cyfrannu at adfywio canol tref Castell-nedd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

## 15. SIDING TERRACE, LÔN LAS, SGIWEN (DIRYMU) A GWAHARDD AROS, LLWYTHO NEU DDADLWYTHO AR UNRHYW ADEG, GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG, A DEILIAID HAWLEN BARCIO I BRESWYLWYR YN UNIG - GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG 2022

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Caiff y gwrthwynebiadau eu cadarnhau ar gyfer Siding Terrace, Lôn Las, Sgiwen - (Dirymu) a (Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg, Gwahardd Aros, Llwytho neu Ddadlwytho ar Unrhyw Adeg, a Deiliaid Hawlen Barcio i Breswylwyr yn Unig) (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) a bod y cynllun diwygiedig (fel y manylir yn Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd) yn cael ei roi ar waith ar y safle.
- Caiff y gwrthwynebwyr eu hysbysu o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Gwella'r cynllun parcio presennol i breswylwyr.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

## 16. RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

Bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn cael ei diwygio fel a ganlyn:-

Cwmnïau i'w hychwanegu at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy

Mae'r cwmnïau canlynol wedi gwneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr ac wedi pasio'r asesiadau angenrheidiol:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Newport Recycling Ltd (N017) | 6 |
| Gavin Griffiths Recycling Ltd (G036) | 6,7,111 |
| Probe Industries Ltd (P054) | 111 |

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

- Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.
- Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

17. **PERFFORMIAD CHWARTER 2**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

18. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

19. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol.

20. **PRYDLESU UNED 1 DATBLYGIAD CANOL TREF CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig cam cyntaf, cymeradwyo rhoi'r brydles yn ôl y telerau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd rhoi'r brydles yn caniatáu i'r safle gwag hwn sydd mewn lleoliad amlwg i gael ei osod a'i weithredu gan gwmni sector hamdden mawr a darparu incwm blynyddol i'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022.

**CADEIRYDD**